# BWRSARIAETHAU SKY ARTS JULIA RAUSING

## Ffurflen Gais

**Gallwch ddefnyddio'r ddogfen hon i adolygu cwestiynau'r ffurflen gais cyn i chi lenwi ein ffurflen gais ar-lein.**

**I gael cymorth gyda'r ffurflen ar-lein, neu i holi am ffyrdd eraill o wneud cais, defnyddiwch y ffurflen gyswllt ar ein gwefan.**

Os gwelwch gwestiwn wedi'i farcio â seren (*) rhaid ei gwblhau cyn y gallwch gyflwyno'ch cais.

| **1. Eich gwybodaeth a'ch manylion cyswllt** |
|---|
| **1.1 Enw cyntaf*** |
| **1.2 Cyfenw*** |
| **1.3 Rhagenw a ffefrir** |
| **1.4 Cyfeiriad e-bost*** |
| **1.5 Rhif ffôn symudol*** |
| **1.6 Rhif ffôn arall** |
| **1.7 Gwlad**<br>Rhaid i chi fod yn byw yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, yr Alban i wneud cais am y rhaglen hon |
| **1.8 Côd post**<br>Ar gyfer eich preswylfa arferol |
| **1.9 Pa genre neu arddull ddawns sy'n disgrifio eich gwaith orau?***<br>• Bale<br>• Dawnsfeydd a Lladin<br>• Syrcas (gan gynnwys awyr ac acrobateg)<br>• Dawns Fasnachol<br>• Cyfoes<br>• Dawns y Diaspora Affricanaidd (DAD)<br>• Gwerin a Thraddodiadol (DU neu ryngwladol)<br>• Hip hop ac arddulliau stryd<br>• Jazz<br>• Theatr Cerdd<br>• Theatr Gorfforol<br>• Dawns De Asia<br>• Arall |
| **1.9b Os "Arall", disgrifiwch eich genre neu'ch arddull** |
| **2. Cadarnhewch eich bod yn gymwys i wneud cais** |
| I fod yn gymwys i wneud cais am y rhaglen fwrsariaeth hon, rhaid i chi fodloni'r **holl** feini prawf hyn: |
| **2.1 Byddaf yn 18 oed neu'n hŷn ar 25 Ionawr 2027*** |
| **2.2 Rwy'n ddinesydd o'r DU, neu wedi bod yn preswylio fel arfer yn y DU ers 1 Ionawr 2022*** |
| **2.3 Rwy'n gweithio ar hyn o bryd neu wedi gweithio'n broffesiynol yn ddiweddar fel artist dawns neu wneuthurwr dawns***<br>Mae hyn yn golygu, ers 1 Ionawr 2022, eich bod wedi derbyn rhywfaint o incwm ar gyfer y math hwn o waith, naill ai fel gweithiwr, gweithiwr llawrydd neu dderbynnydd cyllid grant a'ch bod yn ystyried eich ymarfer celfyddydol fel eich prif yrfa neu broffesiwn. |
| **2.4 Nid wyf eisoes yn wneuthurwr dawns sefydledig ***<br>Mae hyn yn golygu nad oes gennych broffil proffesiynol uchel eisoes, er enghraifft rydych chi'n llwyfannu gwaith a ariennir yn rheolaidd ar gyfer cynulleidfaoedd mawr. |

**2.5 Rwyf ar gael i gymryd rhan yn y rhaglen a'r broses ddethol***

Mae hyn yn golygu:

- Os ydych ar y rhestr fer, rydych chi:
  - Ar gael i gymryd rhan mewn cyfarfod ar-lein gyda Sky Arts rhwng 9 – 20 Tachwedd 2026
  - Yn gallu greu fideo byr am eich prosiect i'w gyflenwi erbyn 7 Rhagfyr 2026.
- Os bydd eich cais yn llwyddiannus:
  - Rydych chi'n cynllunio i fod yn byw yn y DU neu Iwerddon rhwng Ionawr 2027 a Ionawr 2028
  - Nid ydych yn cyllunio i fod mewn cyflogaeth neu addysg llawn amser rhwng Ionawr 2027 a Ionawr 2028
  - Rydych yn gallu ymrwymo'r amser angenrheidiol i'ch prosiect a chymryd rhan lawn yn y rhaglen 12 mis
  - Rydych ar gael i gymryd rhan yn yr arddangosfa ddiwedd blwyddyn yn Llundain ym mis Ionawr 2028

## 3. Amdanoch chi

**3.1 Eich profiad dawns***

Dywedwch wrthym am eich profiad o greu prosiectau dawns. Pa fath o ymarfer dawns sydd gennych chi a sut ydych chi wedi ei ddatblygu hyd yn hyn? Pa ddiddordebau, syniadau, arddulliau neu themâu ydych chi'n eu harchwilio yn eich gwaith?

**3.2 Enghreifftiau o'ch gwaith***

Rhowch enghraifft sy'n dangos eich profiad o greu prosiectau dawns. Gallwch uwchlwytho **un** o'r canlynol**:**

- Ffeil fideo (uchafswm o 3 munud a 500MB yn un o'r fformatau ffeil hyn: .mp4, .mov)
- Dogfen (uchafswm o 5 tudalen a 10MB yn un o'r fformatau ffeil hyn: .docx, .pdf)
- Dolen i wefan neu gyfrif cyfryngau cymdeithasol

**3.2b Rhowch unrhyw gyfrinair, enw defnyddiwr neu gyfarwyddiadau eraill sydd eu hangen i gael mynediad i'ch enghraifft.**

**3.3 Beth oedd eich rôl yn yr enghraifft hon?***

Dywedwch wrthym am eich rôl wrth greu'r darn enghreifftiol o waith rydych chi wedi'i rannu, a'r hyn y gwnaethoch chi ei ddysgu neu ei ennill o'r profiad.

## 4. Eich syniad ar gyfer eich prosiect dawns

**4.1 Beth yw teitl gweithio eich prosiect?** (Gall hyn newid wrth i'ch prosiect ddatblygu) *

**4.2 Dywedwch wrthym am y prosiect dawns yr hoffech ei ddatblygu drwy'r fwrsariaeth hon. Beth yw'r syniad creadigol wrth ei galon?** *

Nid ydym yn chwilio am gynnig prosiect wedi'i ddatblygu'n llawn ar hyn o bryd. Yn lle hynny, dywedwch wrthym am y syniad creadigol y tu ôl i'ch prosiect. Gallai hyn fod yn stori, thema, cwestiwn, cymeriad, ymagwedd, neu unrhyw beth arall sy'n eich ysbrydoli.

Beth sy'n gwneud y syniad yn gyffrous neu'n unigryw? Pam ei fod yn bwysig i chi? Beth ydych chi'n gobeithio y gallai cynulleidfaoedd ei gymryd oddi wrtho?

Dylai'r syniad fod eich gwaith gwreiddiol eich hun ac yn dal i fod ar gam cynnar o ddatblygiad. Ni ddylai fod yn brosiect sydd eisoes wedi'i berfformio'n gyhoeddus, wedi'i gyflwyno neu ei sgrinio ar gyfer cynulleidfa sylweddol.

Gweler yr Adran Canllawiau i Ymgeiswyr os hoffech ragor o wybodaeth.

**4.3 Gwybodaeth a deunyddiau ategol**

Gallwch uwchlwytho neu rannu hyd at **ddwy** eitem ategol sy'n helpu i ddod â'ch syniad prosiect yn fyw.

Gallwch uwchlwytho'r canlynol**:**

- Ffeil fideo (uchafswm o 3 munud a 500MB yn un o'r fformatau ffeil hyn: .mp4, .mov)
- Dogfen (uchafswm o 5 tudalen a 10MB yn un o'r fformatau ffeil hyn: .docx, .pdf)
- Dolen i wefan neu gyfrif cyfryngau cymdeithasol

**4.3b Rhowch unrhyw gyfrinair, enw defnyddiwr neu gyfarwyddiadau eraill sydd eu hangen i gael mynediad i'ch eitem(au) ategol.**

**4.4 Sut fyddech chi'n defnyddio'r fwrsariaeth hon i ddatblygu'ch prosiect dros y flwyddyn fwrsariaeth (Ionawr 2027 – Ionawr 2028)?** *

Nid oes angen cynllun prosiect na chyllideb arnom ar hyn o bryd. Mae gennym ddiddordeb yn eich syniadau eang am sut y gallech chi ddatblygu eich syniad. Gallai hyn gynnwys:

- Syniadau ar gyfer ymchwil, arbrofi, datblygu a chydweithio
- Yr adnoddau y gallai fod eu hangen arnoch, megis gofod, amser ymarfer, cydweithredwyr, offer / deunyddiau, cynhyrchydd prosiect
- Unrhyw uchelgeisiau ar gyfer llwyfannu/rhannu'r gwaith, y tu hwnt i'n digwyddiad arddangos
- Defnyddiau eraill o'n cyllid i gefnogi datblygiad eich prosiect

Bydd pob ymgeisydd llwyddiannus yn arddangos eu gwaith mewn digwyddiad ar ddiwedd y flwyddyn fwrsariaeth ym mis Ionawr 2028. Os hoffech ragor o wybodaeth am yr arddangosfa, gweler y Canllawiau i Ymgeiswyr.

**4.5 A yw eich syniad prosiect eisoes wedi derbyn unrhyw gyllid, buddsoddiad, cymorth mewn nwyddau neu adnoddau eraill i'ch helpu i'w ddatblygu neu ei gynhyrchu?** *

Peidiwch â phoeni os nad ydych wedi sicrhau unrhyw gyllid neu gefnogaeth arall i'ch prosiect. Bwriad y fwrsariaeth yw rhoi'r adnoddau, yr amser a'r gefnogaeth sydd eu hangen i chi i ddatblygu a gwireddu eich syniad.

**4.5b Os yw'ch prosiect eisoes wedi derbyn cyllid neu gymorth arall, dywedwch wrthym pwy sydd wedi ei ddarparu, beth gafodd ei gynnig (er enghraifft cyllid, gofod ymarfer, mentora neu offer), ac unrhyw amodau sydd ynghlwm.** *

Gallai hyn gynnwys pethau fel trefniadau perchnogaeth neu gredyd ar gyfer y gwaith gorffenedig, neu a yw'r gefnogaeth yn dibynnu ar gyllid neu gymeradwyaethau eraill sy'n cael eu sicrhau.

## 5. Pam mai dyma'r cyfle iawn i chi?

**5.1 Pam fyddech chi'n elwa o'r fwrsariaeth hon ar y pwynt hwn yn eich gyrfa ddawns?** *

Dywedwch wrthym sut y gallai'r fwrsariaeth hon gefnogi eich datblygiad fel artist a'ch helpu i ddatblygu eich gyrfa mewn dawns.

Sut allai eich helpu i oresgyn heriau rydych chi'n eu hwynebu ar hyn o bryd a gwneud y gorau o gyfleoedd proffesiynol?

**5.2 Pa fath o gefnogaeth fyddai'n eich helpu i ddatblygu eich prosiect a hefyd yn eich cefnogi i gymryd y cam nesaf yn eich gyrfa ddawns?** *

Gallai hyn gynnwys pethau fel:

- Cymorth mentora gan goreograffydd, dramodydd neu gerddor
- Cyngor cynhyrchu ynghylch meysydd fel cyllidebu, contractio neu hawlfraint
- Cyngor dylunio, llwyfannu neu dechnoleg
- Cyfleoedd i rwydweithio o fewn y diwydiant

**5.3 A oes unrhyw rwystrau sy'n ei gwneud hi'n anoddach i chi ddatblygu eich gyrfa mewn dawns?**

Os ydych yn dymuno gwneud hynny, gallwch ddweud wrthym am unrhyw amgylchiadau personol sy'n effeithio ar eich gallu i symud ymlaen â'ch gyrfa.

Gallai hyn gynnwys anabledd neu gyflyrau iechyd hirdymor, cyfrifoldebau gofalu, heriau ariannol, neu ffactorau eraill sy'n effeithio ar eich cyfleoedd neu ddatblygiad.

Mae rhannu'r wybodaeth hon yn ddewisol, ond gall ein helpu i ddeall eich amgylchiadau yn well a'r gefnogaeth a allai fod fwyaf buddiol i chi.

**6. Ein helpu ni i ddeall pwy ydych chi**

Rydym am i'r cyfle hwn fod mor hygyrch a chynhwysol â phosibl ac rydym am i'r grŵp terfynol o dderbynwyr bwrsariaeth adlewyrchu lled ac amrywiaeth y gymuned ddawns. Mae'r cwestiynau canlynol yn ein helpu i ddeall pwy sy'n gwneud cais ac a ydym yn cyrraedd ystod eang o wneuthurwyr dawns.

Ni fydd y wybodaeth a ddarparwch yn yr adran hon yn cael ei rhannu ag aseswyr yn ystod yr asesiad cychwynnol o geisiadau, ac yn ystod y cyfnod llunio rhestr hir, llunio rhestr fer a dewis terfynol, dim ond i gefnogi creu carfan gytbwys o artistiaid sy'n adlewyrchu ystod o gefndiroedd, profiadau a safbwyntiau.

Bydd y wybodaeth yn cael ei defnyddio ar gyfer monitro, adrodd a gwella hygyrchedd a chyrhaeddiad y rhaglen. Lle bo modd, caiff ei hadolygu a'i hadrodd ar ffurf ddienw ac agregedig.

Bydd unrhyw wybodaeth a ddewiswch ei rhannu yn cael ei thrin yn gyfrinachol. Am ragor o wybodaeth, ewch i Ganllawiau i Ymgeiswyr.

Gallwch ddewis peidio ag ateb unrhyw un o'r cwestiynau hyn trwy ddewis "Mae'n well gen i beidio â dweud.

Os ydych yn dewis peidio ag ateb, ni fydd hyn yn effeithio ar ein hasesiad o'ch cais.

**6.1 Oedran ar 1 Ionawr 2027**

**6.2 Ethnigrwydd**
Categorïau cyfrifiad safonol y DU - Mae'n well gennyf ddisgrifio fy hun:

**6.3 Hunaniaeth rhywedd**
Benyw / Gwryw / Anneuaidd / Mae'n well gennyf ddisgrifio fy hun / Mae'n well gennyf beidio â dweud

**6.4 Statws traws** *[cwestiwn ar wahân – arfer gorau]*
A yw eich hunaniaeth rhywedd yr un fath â'r rhyw a neilltuwyd i chi ar enedigaeth? Ydi / Nac ydi / Mae'n well gennyf beidio â dweud

**6.5 Cyfeiriadedd rhywiol**
Heterorywiol / Hoyw neu lesbiaidd / Deurywiol / Mae'n well gennyf ddisgrifio fy hun / Mae'n well gennyf beidio â dweud

**6.6 Anabledd**
**Ydych chi'n ystyried eich hun yn anabl neu fod gennych gyflwr iechyd hirdymor?**
Ydw / Nac ydw / Mae'n well gennyf beidio â dweud

**6.6b Pa fath o anabledd neu gyflwr iechyd hirdymor sydd gennych?** (dewiswch unrhyw rai sy'n berthnasol)
Corfforol / Synhwyraidd / Niwroamrywiol / Iechyd meddwl / Anabledd dysgu / Salwch cronig / Arall / Mae'n well gennyf beidio â dweud

**6.6c Os Arall, rhowch ddisgrifiad os gwelwch yn dda**

**Cefndir economaidd-gymdeithasol**

**6.7 Math o ysgol a fynychwyd**
Ysgol y wladwriaeth / Annibynnol / talu ffioedd / Y tu allan i'r DU / Mae'n well gennyf beidio â dweud

**6.8 Cymhwysedd prydau ysgol am ddim**
Ie / Na / Mae'n well gennyf beidio â dweud

| |
|---|
| **6.9 Y cyntaf yn y teulu i fynychu addysg uwch**<br>Ie / Na / Mae'n well gennyf beidio â dweud |
| **6.10 Galwedigaeth rhieni yn 14 oed**<br>[mesur safon aur y DU]<br>Rhestrwch gategorïau NS-SEC symlach NEU: Uwch weithiwr proffesiynol / Canolradd / Arferol/llaw / Ddim mewn gwaith / Ddim yn gwybod |
| **7. Datganiadau a chyflwyno** |
| Rwy'n cadarnhau bod y wybodaeth a ddarperir yn fy nghais yn wir hyd eithaf fy ngwybodaeth* |
| Rwy'n cadarnhau mai fy ngwaith gwreiddiol fy hun yw fy nghynnig prosiect* |
| Rwy'n derbyn telerau ac amodau [DOLEN] y rhaglen* |
| Rwy'n cydsynio i Sky Foundation gasglu a phrosesu'r wybodaeth yr wyf wedi'i darparu yn yr adran hon am amrywiaeth ac hygyrchedd. Gall hyn gynnwys gwybodaeth am fy hil neu fy nghefndir ethnig, anabledd neu gyflwr iechyd, tueddiadau rhywiol, hunaniaeth o ran rhywedd, a/neu grefydd neu gred.<br><br>Rwy'n deall y bydd y wybodaeth hon yn cael ei defnyddio (a) yn ystod y camau o lunio rhestr hir, llunio rhestr fer, a'r dewis terfynol i gefnogi creu carfan gytbwys; a (b) at ddibenion monitro, adrodd a gwella hygyrchedd a chyrhaeddiad y rhaglen.<br><br>Rwy'n deall y gallaf dynnu fy nghydsyniad yn ôl ar unrhyw adeg drwy gysylltu â ni gan ddefnyddio'r Ffurflen Gyswllt ar y wefan, ac ni fydd tynnu fy nghydsyniad yn ôl yn effeithio ar gyfreithlondeb unrhyw brosesu a gynhaliwyd cyn hynny.* |

Ar ôl i chi gyflwyno'ch cais, byddwch yn gallu ei olygu hyd nes dyddiad cau cyflwyno ceisiadau am 0900 ddydd Mercher 9 Medi 2026.